# Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

## Gweithgaredd 1.3: *Face the Music* – Cymuned Ymholiad

*Gall yr arddull Cymuned Ymholiad/Athroniaeth i Blant fod yn ysgogol iawn ac ymgysylltu gyda disgyblion llai hyderus. Efallai nad ydych yn gyfarwydd gyda'r arddull hwn, felly rydym wedi darparu ychydig yn fwy o wybodaeth i hwyluso'r defnydd gyda'ch disgyblion. Mae'n addas ar gyfer bob oedran, ond efallai y bydd animeiddiad 'Face the Music' yn gweithio orau fel ysgogiad ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3 a 4. Gellid defnyddio ysgogiad gwahanol ar gyfer disgyblion iau.*

## Oed: 11–16

## Amser: 1 awr

## Nod

Archwilio cysyniadau datblygu cynaliadwy a chyd-ddibyniaeth mewn cyd-destun hanesyddol a byd-eang.

## Bydd angen

Mynediad at y dudalen ganlynol ar y Rhyngrwyd – http://www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_poverty_women/ – a'r gallu i ddangos animeiddiad 'Face the Music' Oxfam i'r holl ddosbarth.

## Beth i'w wneud

Cynigir y nodiadau hyn fel pwynt cychwynnol sylfaenol – efallai y bydd angen hyfforddiant ychwanegol. Ceir arweiniad pellach ar **www.sapere.org.uk.**

Gosodwch y disgyblion i eistedd mewn cylch.

Dangoswch yr animeiddiad i'r disgyblion. Yna dangoswch eilwaith, gan ofyn iddynt feddwl am yr hyn sydd fwyaf diddorol yn eu barn hwy.

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried yn unigol ac yna i drafod unrhyw beth diddorol gyda'r person nesaf atynt. Gofynnwch i bob un ohonynt feddwl am gwestiwn, a thrafod y cwestiynau gyda phartner neu grŵp bach.

Rhestrwch bob cwestiwn ar y bwrdd gwyn. Gofynnwch i bob grŵp egluro pam holwyd y cwestiwn, ac yna i geisio annog gweddill y dosbarth i ddewis cwestiwn hwnnw. Holwch y plant os oes unrhyw gwestiynau yn gysylltiedig â themâu tebyg, ac anogwch gwestiynau o natur mwy 'athronyddol'.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gelir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Caniatewch ddigon o amser ar gyfer trafod er mwyn cyrraedd penderfyniad ar y cyd. Yn ogystal â'r system bleidleisio arferol o un plentyn, un bleidlais, mae rhai hwyluswyr yn defnyddio gwahanol ddulliau pleidleisio, er enghraifft y bleidlais driphlyg, lle gall plant gael tair pleidlais yr un, a phenderfynu sut i'w dosbarthu.

Cychwynnwch y drafodaeth drwy holi'r plentyn neu grŵp pa gwestiwn a ddewiswyd i'w ystyried. Anogwch ddisgyblion eraill i ymuno yn y drafodaeth.

Fel hwylusydd, swyddogaeth yr athro yw cadw'r drafodaeth i symud a hyrwyddo meddwl ac ystyriaeth feirniadol, ond nid arwain y drafodaeth!

Awgrymir rhai enghreifftiau o gwestiynau agored ar gyfer hwyluswyr gan yr Athro Robert Fisher yn ei lyfr *Teaching Thinking*:

**1. Cwestiynau sy'n gofyn am eglurhad:**
Oes modd i ti egluro hynny…? (Esbonio)
Beth wyt ti'n ei olygu drwy ddweud…? (Diffinio)
Oes modd i ti roi enghraifft i fi o…? (Rhoi enghreifftiau)
Sut mae hynny'n helpu…? (Cefnogi)
Oes gan unrhyw un gwestiwn i holi…? (Ymholi)

**2. Cwestiynau sy'n edrych ar resymau a thystiolaeth:**
Pam wyt ti'n meddwl bod…? (Ffurfio dadl)
Sut wyt ti'n gwybod bod…? (Rhagdybiaethau)
Beth yw'r rhesymau…? (Rhesymu)
A oes gen ti dystiolaeth…? (Tystiolaeth)
Oes modd i ti roi enghraifft/gwrthenghraifft…? (Gwrthenghreifftiau)

**3. Cwestiynau sy'n edrych ar safbwyntiau eraill**
Oes modd i ti ei roi mewn ffordd arall…? (Ailosod barn)
A oes safbwynt arall…? (Dyfalu)
Beth pe bai rhywun arall yn awgrymu bod…? (Safbwyntiau eraill)
Beth fyddai rhywun sy'n anghytuno yn dweud…? (Gwrthddadleuon)
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y safbwyntiau/syniadau hynny…? (Gwahaniaethau)

**4. Cwestiynau sy'n profi goblygiadau a chanlyniadau**
Beth sy'n dilyn o'r hyn yr wyt yn ei ddweud…? (Goblygiadau)
A yw'n cyd-fynd gyda'r hyn a ddywedaist yn gynharach…? (Cysondeb)
Beth fyddai canlyniad hynny…? (Canlyniadau)
A oes rheol gyffredinol ar gyfer hynny...? (Cyffredinoli rheolau)
Sut gellid ei brofi i weld os yw'n wir…? (Profi gwirionedd)

**5. Cwestiynau am y cwestiwn/drafodaeth**
A oes gen ti gwestiwn am hynny…? (Ymholi)
Pa fath o gwestiwn…? (Dadansoddi)
Sut mae'r hyn a ddywedwyd/y cwestiwn yn ein helpu…? (Cysylltu)
I ble yr ydym wedi cyrraedd/pwy all grynhoi hyd yma…? (Crynhoi)
A ydym yn agosach at ateb y cwestiwn/problem…? (Dod i gasgliadau)

Wrth ddadansoddi (dylech adael digon o amser – o leiaf 10 munud), gofynnwch i'r disgyblion am ddatganiad terfynol am y cwestiwn. Dyma gyfle i bawb gyfranogi, hyd yn oed os nad ydynt wedi teimlo'n hyderus yn cyfrannu llawer i'r drafodaeth flaenorol.

Trafodwch yr hyn a aeth yn dda, pa faterion eraill a godwyd, beth oedd yn hwyl a beth oedd yn digio. Mae rhai hwyluswyr yn dewis herio camgymeriadau ffeithiol neu gamsyniadau yn ddiweddarach, tu allan i'r sesiwn cymuned ymholiad.

Noder y bydd cymuned ymholiad yn wahanol bob tro.